Y PASG 3

**ACTAU 2:14A, 36-41; SALM 116:1-4, 12-19;
1 PEDR 1:17-23; LUC 24:13-35**

● **Gweddi agoriadol**

Arglwydd atgyfodedig,
bydd di'r presenoldeb a deimlwn
a'r cariad rydym yn ei rannu
a gwrthrych ein gweddi
yn ein dod ynghyd i'th addoli
ar dy ddydd.

● **Moliant**

Dy ewyllys di wastad
oedd i Israel ganfod yn Iesu Grist
yr un a'i dygai adre,
defaid coll yn dychwelyd
at y bugail, eu brenin.
Ac i'r gorlan honno
deuai eraill
o bob cenedl ar y ddaear,
fel y rhagfynegodd y proffwydi,
yn eu mysg ni sydd yma heddiw,
er anrhydedd i'th enw.

Dduw grasol, molwn di
am addewid yr ysgrythur,
am ddyfnder dy gariad
ac am ein Gwaredwr, Iesu Grist.

● **Cyffes**

Arglwydd, dygwn atat
y baich a gariwn,
llwythi sy'n ein gwanhau,
popeth sy'n gwneud i ni lithro.
Ond chawn ni mo'n llethu chwaith,
a ninnau'n troi atat mewn gweddi
gan wybod dy fod yn clywed ein cri
ac, o glywed, yn ateb.

Arglwydd, dygwn atat
y pechod a gariwn,
ein heiddigedd a'n balchder,
popeth sy'n gwasgu arnom.
Ond chawn ni mo'n llethu chwaith
a ninnau'n dod atat mewn gweddi
gan wybod dy fod yn clywed ein cri
ac, o glywed, yn ateb.

● **Diolch**

Pun ai cryf neu wan ydym,
pun ai cyfoethog neu dlawd,
pun ai doeth neu ffôl,
pwy bynnag ydym,
allwn ni wneud dim
i haeddu'r hyn
a gyflawnwyd drosom
ar y groes – does dim
y gallwn ei wneud
ond plygu ein pen ac addoli.
Am faddeuant pechodau
a'r Ysbryd a roed,
yn syml a gostyngedig
rhown ddiolch.